**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

**CHIEF OFFICERS APPOINTMENTS COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**3:30yp DYDD MAWRTH 24ain o CHWEFROR 2015**

**3:30pm, TUESDAY 24th of FEBRUARY 2015**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS**

**(01286) 679878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed .17.02.15

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

**CHIEF OFFICERS APPOINTMENTS COMMITTEE**

**Aelodaeth/Membership** (15)

**Plaid Cymru (7)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Dyfed Edwards Sian Gwenllïan

Selwyn Griffiths Peredur Jenkins

Liz Saville Roberts Dyfrig Siencyn

R.H. Wyn Williams

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Trefor Edwards Jean Forsyth

Eric M. Jones Angela Russell

**Llais Gwynedd (2)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Alwyn Gruffydd Jason Humphreys

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Brian Jones

**Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor
Chairman and Vice-chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 o Hydref 2014, fel rhai cywir.

(copi yma – papur gwyn)

**5. POLISI TÂL AR GYFER PRIF SWYDDOGION – ADOLYGIAD BLYNYDDOL**

Cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr

(copi yma – papur **melyn**)

# AGENDA

## 1. WELCOME AND APOLOGIES

To receive any apologies for absence.

## 2. DECLARATION OF PERSONAL CONNECTION

To receive any declaration of personal interest.

## 3. URGENT ITEMS

To note any items that is a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

## 4. MINUTES

The Chairman shall propose that the minutes of the meeting of this committee held on 16th October 2014, be signed as a true record

(copy herewith – white paper)

## 5. PAY POLICY  FOR CHIEF OFFICERS – ANNUAL REVIEW

To submit the report of the Chief Executive

(copy herewith – **yellow** paper)

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 16.10.14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr, Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Jason Humphreys, Eric M. Jones, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, R.H. Wyn Williams a Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg).

**Hefyd yn Bresennol:** Alwyn Evans-Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol), Dilwyn O Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

1. **CROESO AC YMDDIHEURIADAU**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Ychwanegodd bod yr Is Gadeirydd ac yntau wedi cytuno gwahodd y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg) i'r cyfarfod fel sylwebydd gan mai Pennaeth Addysg oedd yn cael ei benodi.
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Stephen Churchman, Brian Jones a Liz Saville Roberts.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**
   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

5. **CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER SWYDD PENNAETH ADDYSG**

   Cyfwelwyd tri ymgeisydd a oedd ar y rhestr fer ar gyfer y swydd.

   Gwahoddwyd Mr Arwyn Reynolds, Ymgynghorydd annibynnol o gwmni PCS Associates i gyflwyno sylwadau o'r Ganolfan Asesu a gynhaliwyd 07.10.14. Derbyniwyd crynodeb manwl o berfformiadau'r tri ymgeisydd.

   Diolchwyd i Mr Reynolds am ei sylwadau.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Mr Arwyn Thomas ynghyd a'r uchafswm atodiad marchnad (yn unol â phenderfyniad y Cyngor 9.10.14)

Cafwyd trafodaeth ar gyflwyniadau'r  ymgeiswyr ac ystyriwyd y priodoldeb o gynnig atodiad y farchnad i'r ymgeisydd oedd ar y brig. Yn wyneb y rhesymau a amlygwyd yn y cyfarfod cytunwyd y dylid gwneud hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL I BENODI MR ARWYN THOMAS I'R SWYDD PENNAETH ADDYSG.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 1:15pm

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion** |
| **Dyddiad** | **24 Chwefror 2015** |
| **Teitl** | **Polisi Tâl ar gyfer Prif Swyddogion** |
| **Pwrpas** | **Gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn** |
| **Awdur** | **Prif Weithredwr – Dilwyn O. Williams** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins** |

**CEFNDIR**

1 Yn 2012 am y tro cyntaf, roedd yna ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl ar gyfer Prif Swyddogion yn flynyddol. Yn unol â gofynion y dyletswydd hwnnw, swyddogaeth i'r Cyngor llawn ddylai hwn fod.

2 Wrth fabwysiadu polisi tâl ar gyfer 2012/13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r pwyllgor hwn adolygu cynaladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol ac adrodd yn ôl i'r Cyngor. Felly, gofynnir i'r pwyllgor hwn gynghori'r Cyngor ar ei bolisi tâl ar gyfer Prif Swyddogion ar gyfer 2015/16 a fydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor llawn ar y 5ed o Fawrth.

3 Er mwyn gwneud hyn, yn gyntaf oll, rhaid i'r Pwyllgor ystyried effeithiau aildrefnu gwasanaethau sydd wedi digwydd yn ystod 2014/15.

4 Ers sefydlu polisi tal y flwyddyn diwethaf, 'rydym wedi diddymu swydd Pennaeth Gofal Cwsmer, swydd Pennaeth Cyfreithiol, un swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol ac mae gan y Prif Weithredwr fwriad i ymuno Swydd Pennaeth Adnoddau Dynol a Phennaeth Strategol a Gwella gan ddileu'r ddwy swydd a chreu un swydd Pennaeth newydd.

5 Mae'r holl gamau yma wedi arbed dros £700,000 mewn blwyddyn lawn ond er mwyn gwneud yr arbedion hyn 'roedd gofyn dyrannu nifer o gyfrifoldebau i'r Penaethiaid Adran eraill.

**ARFARNIAD O EFFEITHIAU'R AILSTRWYTHURO**

6 Comisiynwyd Hay Group i arfarnu'r rolau lle gwelwyd cynnydd mewn cyfrifoldebau. Rhoddir copi o grynodeb o'u casgliadau yn Atodiad A.

7 Yn fyr, mae'r adroddiad yn nodi tra bod arfarniad wedi dangos fod yna newid wedi bod ym maint y gwahanol swyddi, heblaw am un, nid oes newid digonol wedi bod i gyfiawnhau eu codi i'r band nesaf.

8 Mae'n bwysig nodi wrth gwrs fod y Penaethiaid yma wedi ysgwyddo mwy o faich yn sgil y newidiadau ond dengys adolygiad o effaith hynny ar gyflogau nad yw hynny wedi arwain at newid band cyflog a thrwy hynny, yr angen i dalu cyflog uwch. Serch hynny rhaid cydnabod y rol y maent yn ei chwarae i wireddu mwy o arbedion effeithlonrwydd.

9 Yr unig swydd sydd wedi newid band cyflog yn ol asesiad Hay Group yw swydd y Pennaeth Cyllid sydd wedi codi'n sylweddol oherwydd yr ail ddyranu swyddogaethau. Mae'r adroddiad yn awgrymu fod hon yn cael ei chodi o uchafswm o £70,561 i £75,511.

10 Yn 2003, 'roedd gan y Cyngor Brif Weithredwr, 4 Cyfarwyddwr ac 14 o Benaethiaid Gwasanaeth. Yn dilyn gweithredu ar y cynigion yma byddwn wedi gostwng i Brif Weithredwr, 2 Gyfarwyddwr a 9 Pennaeth Adran - sef gostyngiad o 7 neu 37%. Dengys fy nadansoddiad y byddai cost uwch reolaeth y Cyngor dros £900,000 yn fwy heddiw o beidio â bod wedi cymryd y camau yma.

11 Yn dilyn cyflawni hyn oll byddwn gyda'r isaf yng Ngogledd Cymru o ran nifer uwch reolwyr a chost yr uwch reolwyr hynny.

**GWEDDILL Y POLISI TÂL**

12 Tra bod nifer o ffactorau sy'n effeithio ar allu Cyngor Gwynedd i ddenu a chadw uwch reolwyr, credaf fod y polisi tâl yn gyffredinol gynaliadwy ar hyn o bryd.

13 Fe nododd fy rhagflaenydd fodd bynnag nad oedd yn gallu gwarantu hynny ac yn wir, fe welwyd yr angen i ni gymryd camau arbennig yn ddiweddar wrth geisio penodi ymgeisydd addas ar gyfer swydd Pennaeth Addysg.

14 O fewn y polisi presennol wrth gwrs mae cyflogau Prif Swyddogion yn cael eu meincnodi yn erbyn y farchnad ac yn wyneb symudiadau yn y farchnad mae angen ystyried amseriad unrhyw ddiweddaru.

15 Penderfynodd y Cyngor y flwyddyn diwethaf y byddai yn gwneud hyn yn 2015/16. Mae asesiad Hay Group yn awgrymu fod y meincnodau wedi cynyddu tua £1,500 ar gyfer swyddi Penaethiaid erbyn hyn.

16 Fodd bynnag, yn wyneb yr hinsawdd gyllidol yr ydym yn ei wynebu, ac effaith hynny ar nifer o staff y Cyngor, nid wyf yn ystyried ei fod yn amserol i wneud hynny ar hyn o bryd. 'Rwyf wedi trafod y mater gyda'r Penaethiaid a'r Cyfarwyddwyr ac maent yn unfrydol gytun gyda mi nad yw'n addas adolygu'r meincnodau ar hyn o bryd.

17 Rhaid bod yn fyw, fodd bynnag, i'r ffaith ein bod wedi cael trafferthion recriwtio ac efallai y bydd yn rhaid i'r Cyngor ystyried y mater ymhellach os cyfyd sefyllfa debyg yn y flwyddyn nesaf.

18 Nid wyf yn argymell unrhyw newid felly ar wahan i'r hyn a argymhellir yng nghymal 9 a'r codiad blynyddol cenedlaethol o 2% fel a delir i weddill staff y Cyngor yn unol a'u cytundeb cenedlaethol.

19 Mae'r arbediad a nodir yng nghymal 5 tua £102,600 yn uwch na'r targed a osodwyd ar gyfer Uwch Reolaeth y Cyngor ac mae'r Cabinet wedi cytuno i ddefnyddio elfen o hwn er mwyn symud cam ymhellach tuag at weithredu'r Cyflog Byw.

20 Bydd hyn felly yn golygu un newid bychan yn y Polisi Tal drwy nodi mai pwynt 8 fydd ein cyflog isaf wedyn yn hytrach na phwynt 7.

21 Fe ymgorfforwyd nifer o ychwanegiadau eraill i'r Polisi Tal eleni er mwyn ei wneud yn fwy tryloyw ac fe nodir yr ychwanegiadau yma mewn print italic. Nid ydynt yn newid unrhyw elfen o'r polisi presennol – dim ond manylu ar yr hyn sydd eisoes yn weithredol.

**CASGLIADAU**

22 Yn y pendraw, gall talu gormod a rhy ychydig o gyflog ill dau gynrychioli gwerth gwael i'r trethdalwyr a'r defnyddwyr gwasanaeth. Mae taro cydbwysedd yn anodd ar y gorau, ond rhaid i'r nod cyffredinol fod yr un peth ag yw gyda thâl staff eraill – cynaladwyedd. Ar y cyfan, credaf fod peidio â newid y polisi am y flwyddyn nesaf yn bodloni'r nod hwn ond ni allaf ddweud yr un peth yn y tymor hwy.

**ARGYMHELLION**

23 Y dylid gosod tâl y swydd Pennaeth Cyllid sydd newydd ei harfarnu ar £75,511 o 1 Ionawr 2015.

24 Nad oes unrhyw newid i fandiau cyflog gweddill swyddi Penaethiaid Adran oedd yn cael eu heffeithio gan yr ailstrwythuro.

25 Nad oes unrhyw newid i'r Polisi Tâl cyffredinol am y flwyddyn nesaf yn nhermau'r lefelau meincnod h.y. lefel canolrif a chwartel isaf ar gyfer yr un swyddi.

26 Bod yr ystyriaeth nesaf yn cael ei roi i ail-raddio tal gwirioneddol i lefelau meincnod pan yn adolygu PolisiTal 2016/17 ac yn flynyddol wedi hynny.

27 Bod y Polisi Tal yn cael ei addasu i nodi mai pwynt 8 fydd cyflog isaf y Cyngor yn hytrach na phwynt 7.

28 Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Polisi Tal sy'n amgaeedig ar gyfer 2015/16.

# Crynodeb "Hay Group"

## Pennaeth Rheoleiddio

Mae'r rôl wedi cymryd y swyddogaeth glanhau a gofalwyr gan y gwasanaethau darparu, gwasanaeth gweithredol sydd â thua 190 o staff sy'n edrych ar ôl yr holl adeiladau ac eithrio ysgolion (yn bennaf yn canolbwyntio ar weithgareddau gweithredol). Wrth dderbyn hyn, bydd deilydd y swydd yn canolbwyntio ar sicrhau gallu, ynghyd â'r angen i ail-dendro ar gyfer contractau allanol allweddol. Yn ogystal, mae eiddo hefyd wedi symud i'r portffolio hwn, ac mae'r prif feysydd cyfrifoldeb yn cynnwys cyfrifoldeb am holl swyddfeydd y Cyngor a'r rhaglen ystadau.

Mae newidiadau allweddol eraill y rôl yn y maes hwn yn cynnwys:

- Rheoli ymgysylltiad a chyfathrebu â rhanddeiliaid ar gyfer y rhaglen Ystadau a'r effaith ganfyddadwy ar y cyhoedd yng Ngwynedd.
- Mae gan Eiddo gyllideb o £5.169m; mae'n rheoli rhaglen atgyweirio/diweddaru ysgolion heriol ac mae ganddo gyfrifoldeb am wario arian deiliaid cyllidebau eraill yng nghyswllt y prosiectau ystadau.
- Mae'r swyddogaeth glanhau a gofalwyr hefyd yn darparu gwasanaethau drwy gontract i CCG, y Gwasanaeth Tân a'r Parc Cenedlaethol. Mae deilydd y swydd yn gyfrifol am oruchwylio Rheolaeth y contractau a'r newidiadau posib i'r trefniadau hyn.
- Mae'r Pennaeth Rheoleiddio yn ymgymryd â gwaith strategol ar lefel ranbarthol gan fynychu byrddau cenedlaethol a rhanbarthol. Mae'r Cyngor hefyd yn rhedeg gwasanaethau cynllunio i Ynys Môn ac yn rheoli cynllun datblygu ar y cyd.

Yn flaenorol, roedd gan ddeilydd y swydd bortffolio oedd yn cynnwys tua 200 o staff cyfwerth â llawn amser, sydd bellach wedi cynyddu i 240 llawn amser a 180 rhan amser ynghyd â chyfrifoldeb am gontractwyr. Cyllideb o tua £11m sydd i'r portffolio, ynghyd â chymorth grant a phrosiectau cyfalaf ac mae ganddo her o wneud arbedion ac effeithlonrwydd o £1.5m dros y tair blynedd nesaf. Yn ogystal, mae gan yr adran gyfrifoldeb i gynhyrchu incwm yn nhermau ffioedd parcio, trwyddedu a chynllunio; mae'r swyddogaethau hyn yn hunan-gynhaliol yn nhermau adennill cost.

Bydd y swyddogaeth glanhau ychwanegol yn golygu cynnydd cyfrannol mawr yng ngweithlu'r adran; fodd bynnag, mae'r gwaith y mae'r swyddogaeth hon yn ei gyflawni yn bennaf yn weithredol ei natur. Mae portffolio eiddo'r Cyngor yn swyddogaeth fwy amlwg ond mae'n gweddu'n dda i'r ehangder a'r cymhlethdod cyffredinol sy'n gysylltiedig â rôl sy'n rheoli swyddogaeth cynllunio'r Cyngor.

*Sgôr Arfarniad Swydd Blaenorol: F II 3 400  E4 (43) 175 E3-P = 230 A2* ***Cyfanswm Pwyntiau Hay = 805***

*Sgôr Arfarniad Swydd: F II 3 400 E4 (43) 175 E3P = 264 A3* ***Cyfanswm Pwyntiau Hay = 839 (Cynnydd bychan)***

*Mae deilydd y rôl yn berson proffesiynol a phrofiadol sy'n rheoli'r gwasanaeth cynllunio i'r Cyngor (gyda chyfrifoldeb ychwanegol am wasanaethau gweithredol). Er bod hyn wedi cynyddu maint y gweithlu, mae'r rôl yn parhau'n atebol am weithrediadau a gwasanaethau sy'n gyffredinol gysylltiedig eu natur a'u hamcan ac*

*mae'r gofyn am gydgysylltu â swyddogaethau cysylltiedig yn parhau. Mae deilydd y rôl yn bennaf gyfrifol am ddylanwadu, datblygu ac ysgogi pobl a newid ymddygiad.*

*Mae gan y rôl gyfrifoldeb pennaf am gyllideb uwch ac mae iddi rhywfaint o annibyniaeth sydd ei hangen i gyflawni canlyniadau blynyddol ac mae deilydd y rôl yn penderfynu sut a phryd y cyflawnir canlyniadau. Fodd bynnag, ceir rôl Cyfarwyddwr Strategol sy'n rhoi dealltwriaeth a chyfarwyddyd ac a fydd yn dal y gwasanaeth hwn i gyfrif ar y cyd â'r aelodau cabinet, gan felly leihau rhyddid y rôl i weithredu. Mae newid i siâp y rôl, a'r cyfanswm sgôr, ond mae'r rôl yr un maint yn fras.*

- **Dylai'r swydd hon barhau ar PG2**

**<u>Pennaeth Oedolion a Llesiant</u>**

Mae hon yn swydd newydd a grëwyd ym mis Ebrill 2014 sy'n cymryd cyfrifoldeb am fwyafrif y gyllideb gofal cymdeithasol ar ran y Cyngor a chyda chyllideb gyffredinol o £50m a 900 o staff cyfwerth â llawn amser. Roedd deilydd y swydd yn Bennaeth Gofal Cwsmer yn flaenorol ac wrth gymryd y portffolio hwn ymlaen, mae wedi diosg peth o'i phortffolio blaenorol yn gyfnewid am feysydd ychwanegol Gwasanaethau Oedolion, Tai, Llywodraethu Gwybodaeth a gweddill y portffolio Gofal Cwsmer. Fel rhan o'r gwaith i fodloni targedau effeithlonrwydd bydd gofyn i ddeilydd y rôl reoli newid mewn diwylliant i un o adnabod a rheoli canlyniadau a goblygiadau delio â risg.

Mae newidiadau allweddol eraill y rôl yn y maes hwn yn cynnwys:

- Datblygu trefniadau gweithio ar y cyd gydag Iechyd, yn cynnwys newid diwylliannol ac addasu prosesau'n sylfaenol.
- Gofyn i ddatblygu marchnad leol i ddarparwyr gofal preswyl a'r trydydd sector i ddatblygu darpariaeth gwasanaeth newydd oherwydd ar hyn o bryd nid oes marchnad ar gyfer darparu o fewn yr ardal leol.

Yn ogystal, mae'r portffolio'n cynnwys cefnogaeth fusnes a hyfforddiant ar y cyd ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant. Mae gan ddeilydd y swydd her i wneud arbedion o £6m dros y tair blynedd nesaf.

Mae gan y rôl hon gyfrifoldeb am wasanaethau oedolion o fewn y Cyngor ynghyd â llesiant ac integreiddio gwasanaethau gydag Iechyd, tai strategol, llywodraethu gwybodaeth a pheth o'r ganolfan cyswllt cwsmer. Bydd y rôl yn gyfrifol am edrych ar ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol yn cynnwys comisiynu mwy o wasanaethau gan ddarparwyr allanol. Er yn rôl fawr, yn flaenorol roedd cyfrifoldebau Oedolion a Phlant yn cael eu cyflawni gan un rôl ac mae'r rhain wedi'u rhannu dros ddwy swydd 'Pennaeth'. Mae meddwl yn strategol yn amlwg ac yn ofynnol, fodd bynnag, bydd rhan helaethaf y gofyn hwn yn eistedd gyda'r Cyfarwyddwr Strategol a'r aelodau Cabinet.

*Sgôr Arfarniad Swydd Newydd: F II 3 400 E4 (43) 175 E3P 264 A3* ***Cyfanswm Pwyntiau Hay = 839***

*Mae deilydd y rôl yn berson proffesiynol a phrofiadol sy'n cyflwyno gwasanaethau i oedolion ledled Gwynedd ynghyd â chwarae rôl flaenllaw gydag integreiddio*

*gwasanaethau gydag Iechyd. Mae gan ddeilydd y rôl amrywiaeth eang o swyddogaethau; fodd bynnag, mae llinyn aur all ddod â meysydd oedolion, llesiant a thai strategol ynghyd. Mae'r gwasanaethau hyn yn ategu ei gilydd a bydd newidiadau i unrhyw rai o'r meysydd hyn yn cael effaith ar y lleill. Mae deilydd y rôl yn bennaf gyfrifol am ddylanwadu, datblygu ac ysgogi pobl a newid ymddygiad.*

*Mae gan y rôl gyfrifoldeb pennaf am y gyllideb ac mae iddi rhywfaint o annibyniaeth sydd ei hangen i gyflawni canlyniadau blynyddol ac mae deilydd y rôl yn penderfynu sut a phryd y cyflawnir canlyniadau. Fodd bynnag, ceir rôl Cyfarwyddwr Strategol sy'n rhoi dealltwriaeth a chyfarwyddyd ac a fydd yn dal y gwasanaeth hwn i gyfrif ar y cyd â'r aelodau cabinet, gan felly leihau rhyddid y rôl i weithredu. Mae maint y rôl wedi'i gyfyngu gan bresenoldeb y Cyfarwyddwr uwch ei phen, ac yn hanesyddol roedd rôl gofal cymdeithasol yn gweithredu gwasanaethau Oedolion a Phlant wedi'i lleoli ar y sgôr AS Prif Swyddog uchaf.*

- **Dylai'r swydd hon barhau ar PG2**

**<u>Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd</u>**

Mae'r rôl yn newydd ers mis Ebrill 2014 ac ers hynny mae wedi cymryd cyfrifoldeb am feysydd eraill yn cynnwys Diogelu Oedolion ac integreiddio iechyd. Mae gan ddeilydd y swydd gyfrifoldeb am riantu corfforaethol ar ran y Cyngor a hefyd am ddarparu gweithlu gwaith cymdeithasol sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau perthnasol. Mae gan y gwasanaeth 400-500 o staff gyda chyllideb gyffredinol o £14m ynghyd â gwasanaethau a ariennir drwy grantiau sydd tua £4m. Mae gan y gwasanaeth her o ddarganfod arbedion effeithlonrwydd o £2.4m dros y tair blynedd nesaf.

Mae newidiadau allweddol eraill y rôl yn y maes hwn yn cynnwys:

- Cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau allan o oriau gan y Gwasanaethau Oedolion ym mis Ebrill ac ailstrwythuro'r adran i gymryd y cyfrifoldeb ychwanegol.
- Arwain ar berthnasau gyda'r Gwasanaeth Iechyd wrth gyflwyno cyfraniad i wasanaethau integredig er mwyn lleihau'r effaith ar adnoddau'r Cyngor.
- Mae deilydd y rôl yn gweithredu fel arweinydd strategol gan fynychu byrddau rhanbarthol gyda phenaethiaid gwasanaeth eraill er mwyn cael cysondeb ar draws polisïau a threfnau.
- Datblygu'r berthynas gydag Ynys Môn sy'n gweithio'n dda ar sail dydd i ddydd ond sy'n anodd yn wleidyddol.

Crëwyd y rôl yn sgil gwahanu'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol gynt yn Wasanaethau Plant ac Oedolion.

Mae gan y rôl gyfrifoldeb statudol o fewn y Cyngor ac mae'n arwain un o'r gwasanaethau mwyaf gweladwy o fewn y Cyngor. Mae gofyn i ddeilydd y rôl ymdrin â sefyllfaoedd cymhleth mewn cyd-destun o gyllidebau sy'n crebachu gan sicrhau bod gofynion statudol y Cyngor yn cael eu bodloni. Mae'r rôl yn gyfrifol am y gyllideb ac am sicrhau bod polisïau cenedlaethol yn cael eu trosi'n bolisïau y gellir eu gweithredu i'r Cyngor. Er ei bod yn rôl fawr, yn flaenorol roedd cyfrifoldebau Oedolion a Phlant yn cael eu cyflawni gan un rôl ac mae'r rhain wedi'u rhannu dros ddwy swydd 'Pennaeth'. Mae meddwl yn strategol yn amlwg ac yn ofynnol, fodd

bynnag, bydd rhan helaethaf y gofyn hwn yn eistedd gyda'r Cyfarwyddwr Strategol a'r aelodau Cabinet.

*Sgôr Arfarniad Swydd Newydd: F II 3 400  E4 (43) 175 E3P 264 A3* ***Cyfanswm Pwyntiau Hay = 839***

*Mae deilydd y rôl yn berson proffesiynol a phrofiadol sy'n cyflwyno gwasanaethau i Blant a theuluoedd ledled Gwynedd.  Mae deilydd y rôl yn weithiwr cymdeithasol cymwys ac mae ganddi gyfrifoldeb statudol ar draws y Cyngor. Er bod ganddi gyfrifoldeb am riantu corfforaethol a sicrhau fod gan y Cyngor weithlu sydd â'r sgiliau priodol, mae'r swyddogaethau yn gysylltiedig agos eu natur a'u hamcan ac mae'r gofyn am gydgysylltu â swyddogaethau cysylltiedig yn parhau.  Mae deilydd y rôl yn bennaf gyfrifol am ddylanwadu, datblygu ac ysgogi pobl a newid ymddygiad.*

*Mae gan y rôl gyfrifoldeb pennaf am y gyllideb ac mae iddi rhywfaint o annibyniaeth sydd ei hangen i gyflawni canlyniadau blynyddol ac mae deilydd y rôl yn penderfynu sut a phryd y cyflawnir canlyniadau. Fodd bynnag, ceir rôl Cyfarwyddwr Strategol sy'n rhoi dealltwriaeth a chyfarwyddyd ac a fydd yn dal y gwasanaeth hwn i gyfrif ar y cyd â'r aelodau cabinet, gan felly leihau rhyddid y rôl i weithredu. Mae maint y rôl wedi'i gyfyngu gan bresenoldeb y Cyfarwyddwr uwch ei phen, ac yn hanesyddol roedd rôl gofal cymdeithasol yn gweithredu gwasanaethau Oedolion a Phlant wedi'i lleoli ar y sgôr AS Prif Swyddog uchaf.*

- **Dylai'r swydd hon barhau ar PG2**

**<u>Pennaeth Economi a Chymuned</u>**

Mae'r rôl wedi cadw ei phortffolio blaenorol ond mae'r pwyslais wedi symud o gyflwyno gwasanaethau i gyfarwyddo cyflwyno gwasanaethau. Mae'r portffolio wedi'i ehangu i gynnwys Llyfrgelloedd o'r cyn wasanaeth Gofal Cwsmer a Hamdden a Datblygu Chwaraeon. Mae cyllideb refeniw gyffredinol o £12m ynghyd â chefnogaeth grant o £9m (mae datblygu chwaraeon yn cael ei ariannu'n llwyr drwy grant) gyda 900 o staff cyfwerth â llawn amser. Mae'r portffolio hefyd yn cynnwys prosiectau cyfalaf o £20m sy'n cael eu rheoli ar ran y Cyngor.

Mae newidiadau yn y maes hwn yn cynnwys:

- Prosiect trawsffurfio allweddol i gyflwyno gwasanaethau hamdden mewn modd gwahanol a fyddai'n arwain at 40% o leihad mewn gwariant heb gau canolfannau hamdden, drwy drosglwyddo cyfrifoldebau i gerbyd cyflwyno arall.
- Rheoli rhaglen lleihad o 20% ar draws cyfleusterau llyfrgelloedd
- Cysylltiad lefel strategol gyda Chaerdydd ynghylch yr Agenda Economaidd yn ymwneud â dylanwadu, lobïo a chyflwyno achos y Cyngor am nawdd. Wedi'i ymestyn o'r rôl flaenorol i gynnwys y Celfyddydau, Diwylliant, Archifau, Parciau Gwledig a Morwrol.

Mae deilydd y swydd yn gyfrifol am gyflwyno'r gwasanaeth yn y pen draw, ond mae ganddi benrhyddid i symud arian o un maes i un arall i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio â Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg ond mae eraill yn dal y gyllideb.

*Sgôr Arfarniad Swydd Blaenorol:  F II 3 400  E4 (43) 175 E2+P = 230 A2* ***Cyfanswm Pwyntiau Hay = 805***

*Sgôr Arfarniad Swydd: F II 3 400 E4 (43) 175 E3P = 264 A3* ***Cyfanswm Pwyntiau Hay = 839 (Cynnydd bychan)***

*Mae deilydd y rôl yn berson proffesiynol a phrofiadol y mae gofyn iddi yrru datblygiad yr economi ledled Gwynedd gan ddatblygu swyddogaethau a pholisïau a fydd yn sicrhau bod gan drigolion gyfle i fanteisio ar dwf yr economi. Mae'r rôl wedi cymryd agweddau diwylliannol gwasanaeth y Cyngor yn cynnwys gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd ac mae gofyn iddi drawsffurfio'r ffordd y mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu cyflwyno. Mae'r gwasanaethau hyn yn agwedd bwysig o gynnig economaidd ardaloedd felly maent yn cyd-fynd â'r portffolio blaenorol. Mae deilydd y rôl yn bennaf gyfrifol am ddylanwadu, datblygu ac ysgogi pobl a newid ymddygiad.*

*Mae gan y rôl gyfrifoldeb pennaf am y gyllideb ac mae hon wedi cynyddu sydd wedi'i adlewyrchu yn yr arfarniad. Mae gan ddeilydd y rôl rhywfaint o annibyniaeth sydd ei hangen i gyflawni canlyniadau blynyddol ac mae deilydd y rôl yn penderfynu sut a phryd y cyflawnir canlyniadau. Fodd bynnag, ceir rôl Cyfarwyddwr Strategol sy'n rhoi dealltwriaeth a chyfarwyddyd ac a fydd yn dal y gwasanaeth hwn i gyfrif ar y cyd â'r aelodau cabinet, gan felly leihau rhyddid y rôl i weithredu.*

- **Dylai'r swydd hon barhau ar PG2**

**<u>Pennaeth AD / Strategol a Gwella (wedi'i hadolygu heb gyfweld â deiliaid presennol y swyddi)</u>**

Mae'r rôl yn gyfuniad o ddau bortffolio gwahanol, ac yn dod â'r swyddogaethau AD a Strategol a Gwella, a oedd yn annibynnol ar ei gilydd yn flaenorol, ynghyd. Bydd gan ddeilydd y swydd gyfrifoldeb am y portffolio AD llawn ar gyfer yr holl staff o fewn y Cyngor yn cynnwys Gweithrediadau AD, Dysgu a Datblygu, Talent, Datblygu'r Strwythur. Mae'r agweddau Strategol a Gwella yn cynnwys perfformiad a chraffu, Caffael, effeithlonrwydd ac arloesedd, Cyfeiriad Strategol a Gwasanaethau Democrataidd.

Yn seiliedig ar strwythurau'r ddwy adran wreiddiol, bydd gan ddeilydd y rôl chwe uwch reolwr yn adrodd iddo/iddi - byddai'r cyllidebau'n cael eu cyfuno. Mae'r ddau bortffolio'n wahanol, ac amgylchiadau yn hytrach nag anghenion strwythurol sy'n gyrru'r cyfuno hwn. Wedi dweud hynny, mae tebygrwydd rhwng yr adrannau - bydd y portffolio wedi'i gyfuno yn cefnogi'r sefydliad i yrru, datblygu a gweithredu newid yng nghyd-destun heriau ariannol a sectorol sylweddol. Bydd 195 o staff cyfwerth â llawn amser yn yr adran wedi'i chyfuno (96 yn AD a 99 yn Strategol a Gwella) gyda chyllideb gyffredinol o £12.3M (£3.8M yn AD a £8.5M yn Strategol a Gwella). Bydd deilydd y rôl yn cynrychioli'r Cyngor ar lefel genedlaethol a bydd ynghlwm â phartneriaethau ar sail ranbarthol, yn aml fel yr awdurdod arweiniol. Bydd her i ddeilydd y rôl wneud arbedion ac effeithlonrwydd dros y ddwy flynedd nesaf, yn bennaf o fewn yr Adran Strategol a Gwella ond bydd arbedion llai i'w canfod o AD.

*Sgôr Arfarniad Swydd Blaenorol:* ***AD 775 Pwynt Hay; SaG 805 Pwynt Hay.***

*Sgôr Arfarniad Swydd: F II 3 400  E4 (43) 175 E4C+ = 230 A2* ***Cyfanswm Pwyntiau Hay = 805***

*Bydd deilydd y rôl yn berson proffesiynol a phrofiadol sy’n rheoli gwasanaethau cysylltiedig ond gwahanol. Bydd deilydd y rôl yn asiant newid – fel y byddech yn ei ddisgwyl o ystyried y cyd-destun – yn ymwneud â dylanwadu, datblygu ac ysgogi pobl a newid ymddygiad. Tra bod cyfuniadau o wasanaethau unigryw yn cynnig cyfle am sgoriau arfarnu uwch, yn yr achos hwn ein barn ni yw nad yw'r rôl yn un sydd â phwys nac effaith ddigon sylweddol i gael ei lleoli ar y band cyflog uwch.*

*Mae haen Cyfarwyddwr Strategol yn parhau uwch ben y rôl (ond yn anorfod mae cyswllt uniongyrchol â’r Prif Weithredwr) sy’n rhoi dealltwriaeth a chyfarwyddyd ac a fydd yn dal gwasanaethau i gyfrif ar y cyd â'r aelodau Cabinet, gan felly leihau rhyddid y rôl i weithredu. Byddai’r rôl wedi’i chyfuno yn parhau ar yr haen ganol “Pennaeth”.*

- **Dylai’r swydd hon barhau ar PG2**

**<u>Pennaeth Cyllid</u>**

Mae’r rôl wedi derbyn cyfrifoldeb am yr adran TG gan yr Adran Gofal Cwsmer gynt a chyfrifoldeb am Fuddsoddiad Pensiynau gan rôl y cyn Gyfarwyddwr Corfforaethol sydd bellach yn wag ac y mae bwriad i'w thynnu oddi ar y sefydliad. Mae cyfrifoldeb statudol i'r rôl i sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau ariannol priodol yn eu lle a chynnal systemau ac adrodd ariannol priodol. Mae’r Adran Gyllid briod yn cynnwys tua 200 o staff.
Mae newidiadau allweddol eraill y rôl yn y maes hwn yn cynnwys:

- Mae’r rôl bellach yn gyfrifol am ddylunio strategaeth ariannol y Cyngor a wnaed y flaenorol gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol
- Cyfrifoldeb am benderfyniadau buddsoddi ar gyfer y Gronfa Bensiwn ranbarthol. Yn ymdrin yn bennaf â'r pwyllgor buddsoddi a'r 12 cwmni buddsoddi. Er bod deilydd y rôl wedi cysgodi’r Cyfarwyddwr Corfforaethol oedd â chyfrifoldeb am y maes hwn yn flaenorol, cymerodd gyfrifoldeb ffurfiol ym mis Ebrill. Fel arweinydd y gronfa ranbarthol, bellach mae gan y rôl gyfrifoldeb i ryngweithio â rhanddeiliaid, cynhyrchu’r adroddiad blynyddol a mynychu cyfarfodydd pwyllgor archwilio’r aelodau.
- Mae’r Adran TG wedi symud i’r Portffolio Cyllid o Gofal Cwsmer. Mae’r adran yn cynnwys rhwng 60 a 70 o staff ac yn rheoli y rhan fwyaf o brosiectau TG o fewn y Cyngor ynghyd â Menter ar y Cyd gydag Ynys Môn ar ddarparu gwasanaeth i ysgolion. Mae’r adran hefyd yn cefnogi prosiectau technegol i alluogi arbedion mewn adrannau eraill. Y prif heriau yn y maes hwn yw adnoddau ac ariannu.

Tra bod gan y Penaethiaid eraill rôl Cyfarwyddwr Strategol uwch eu pennau o hyd, yn gweithredu fel gwneuthurwyr penderfyniadau â chanddynt atebolrwydd cyffredinol am gyflwyno, nid oes gan y rôl hon gyfarwyddyd strategol felly mwyach. Bellach mae gan y rôl hon gyfrifoldeb i yrru allbwn ariannol strategol y Cyngor a bydd hyn yn cael ei wneud yn uniongyrchol gyda’r Prif Weithredwr a’r aelodau cabinet.  Felly, yn sgil y math o gyfrifoldebau ychwanegol y mae’r rôl hon wedi’u cymryd, a’r atebolrwydd strategol hwn, mae’r sgôr arfarnu wedi cynyddu:

***Sgôr Arfarniad Swydd Blaenorol:*** *FII3 = 400  E4(43) 175   E4C+230  A2*
***Cyfanswm Pwyntiau Hay = 805***

***Sgôr Arfarniad Swydd Newydd:*** *FII+3 460 E4(43) 200 E4C+ 230 A1* ***Cyfanswm Pwyntiau Hay = 890***

*Mae deilydd y rôl yn berson proffesiynol sydd â phrofiad eang a helaeth mewn cyllid. Bellach mae gan y rôl gyfrifoldeb am ddatblygu'r strategaeth ynghyd â sicrhau bod polisïau yn eu lle i sicrhau cyflawniad. Mae'r rôl yn arwain strategaeth ariannol, yr adran gyllid, yr adran TG a bellach mae ganddi atebolrwydd gwneud penderfyniadau ar draws yr ymddiriedolaeth pensiwn hefyd. Mae'r rôl yn cynnwys lefel uchel o arweinyddiaeth a rhyngweithio gydag awdurdodau ac asiantaethau eraill a Llywodraeth Cymru.*

*Fel arweinydd ariannol yr awdurdod, mae'r rôl yn berchen ar ddatblygu strategaeth law yn llaw â chyflwyno polisïau a safonau, ac mae'r rôl hon yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau y cynhelir cymhwysedd ariannol y Cyngor. Nid oes swydd Cyfarwyddwr Strategol ynghlwm â'r rôl bellach, a fyddai'n cynorthwyo i osod cyfeiriad a rheoli'r Cabinet ac, felly, mae'r atebolrwydd yn gorwedd o fewn y rôl hon.*

- ***Dylid ailraddio'r swydd hon i PG3***

**Tâl**

Ar sail ail-arfarnu rolau, tra bod nifer o'r swyddi hyn wedi tyfu o ran maint, byddem yn argymell y raddfa PG2 ganol ar gyfer y swyddi isod:

- Pennaeth Oedolion a Llesiant
- Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd
- Pennaeth Rheoleiddio
- Pennaeth Economi a Chymuned
- Pennaeth AD / Strategol a Gwella

Y rôl sydd wedi cynyddu'n sylweddol o ran maint yw'r rôl Cyllid; mae wedi cymryd mwy o wasanaethau ac nid oes Cyfarwyddwr bellach yn arwain ar Strategaeth Ariannol. Byddai gosod tâl ar gyfer y rôl gan ddefnyddio'r un polisi (Chwartel Isaf) â'r raddfa PG3 safonol yn briodol.

# Datganiad Polisi Tâl – 2015/16

## CYFLWYNIAD

Yn unol ag Adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011, mae gofyn i bob Cyngor baratoi datganiadau polisi tâl. Rhaid i'r datganiadau hyn gyfleu beth yw polisïau'r Awdurdod tuag at amrediad o faterion sy'n ymwneud â thâl ei weithlu, yn enwedig ei uwch staff (neu 'brif swyddogion') a'r gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf. Rhaid paratoi datganiadau polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn.

## POLISI TÂL AR GYFER PRIF SWYDDOGION

Mae'r Cyngor yn diffinio ei brif swyddogion fel a ganlyn: y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Strategol a'r Penaethiaid Adran. *Mae'r Cyngor yn cyflogi prif swyddogion o dan amodau a thelerau y JNC ac mae hynny wedi'i ymgorffori yn eu cytundebau. Mae'r JNC ar gyfer Prif Swyddogion yn negodi codiad cyflog blynyddol cenedlaethol (DU) ar sail costau byw ar gyfer y grwp hwn. Mae Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau y JNC gyda hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y JNC a bydd y Cyngor felly yn talu'r codiadau hyn pan y'u dyfernir yn unol a gofynion cytundebol presennol.*

### Cyflogau

Mabwysiadwyd y polisi sy'n ymwneud â chyflogau Penaethiaid Adran a Chyfarwyddwyr Strategol am y tro cyntaf yng nghyfarfod y Cyngor llawn ym mis Hydref 2009 ac yna ym Mehefin 2012, fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Polisi Tâl yn ei gyfanrwydd.

Mae'n seiliedig ar adroddiad annibynnol gan yr Hay Group ac ar eu cynllun arfarnu swyddi hwy.

Mae cyflogau Cyfarwyddwyr Strategol wedi eu gosod fymryn yn is na chwartel isaf ar gyfer swyddi o faint cyfatebol o fewn y Farchnad Sector Cyhoeddus Cenedlaethol, fel ag yr oedd yn ymddangos yn Ionawr 2012, (golyga chwartel isaf bod 75% o'r sector yn cael cyflogau uwch).

Mae cyflog y Pennaeth Addysg wedi'i osod ar ganolrif y cyflog a delir ar gyfer swyddi o faint cyfatebol o fewn y Farchnad Sector Cyhoeddus Cenedlaethol fel ag yr oedd yn ymddangos yn Ionawr 2012 (golyga canolrif bod 50% o'r sector yn cael cyflogau uwch).

Mae cyflog y Pennaeth Cyllid wedi'i osod ar sail y chwartel isaf o'r cyflog a delir ar gyfer swyddi o faint cyfatebol o fewn y Farchnad Sector Cyhoeddus Cenedlaethol fel ag yr oedd yn ymddangos yn Ionawr 2012 (golyga chwartel isaf bod 75% o'r sector yn cael cyflogau uwch).



DRAFT

Mae cyflogau y Penaethiaid Adran eraill wedi eu gosod ar sail canolrif y cyflog a delir ar gyfer swyddi o faint cyfatebol o fewn y Farchnad Sector Cyhoeddus Cenedlaethol, fel ag yr oedd yn ymddangos yn Ionawr 2012 (golyga canolrif bod 50% o'r sector yn cael cyflogau uwch).

Rhoddir ystyriaeth i adolygu tâl gwirioneddol yng nghyd-destun lefelau y meincnodau yn flynyddol.

Mae tâl ar gyfer y Prif Weithredwr wedi ei osod yn unol â'r raddfa £100,536 - £108,264.

Nid yw'r Cyngor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad i'w Brif Swyddogion. *Mae amodau a thelerau gwaith lleol y Cyngor yn berthnasol i'w Brif Swyddogion, yn yr un modd ag ar gyfer gweddill y staff, oni nodir yn wahanol yn y polisiau unigol.*

Mae cyflogau Prif Swyddogion y Cyngor ar gael ar wefan y cyngor ar y linc ganlynol - www.gwynedd.gov.uk/buddiannaucyflogaeth. (Gweler Atodiad 1)

## CYFLOGAU ISAF

Mae polisi tâl y Cyngor ar gyfer gweddill ei staff yn seiliedig ar bolisi tâl cyfartal y Cyngor a'i gytundeb torfol â'r undebau llafur cydnabyddedig, fel y'i cyflwynwyd ar 1 Ebrill 2008. Mae strwythurau tâl y Cyngor yn destun archwiliadau tâl cyfartal.

*Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu meini prawf Cynllun Arfarnu Swyddi GLPC fel sail i osod graddfa cyflog ar gyfer pob swydd sydd yn cael ei chyflogi o dan Amodau Gwaith Gweithwyr Llywodraeth Leol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dalu cyflogau yn unol a deddfwriaeth cyflog cyfartal a'r gytundeb "statws sengl" rhwng cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur cydnabyddedig yn 1997.*

Mae'r Cyngor yn diffinio ei gyflog isaf, fel pwynt cyflog 8, ar y raddfa cyflog genedlaethol fel y cytunwyd gan y Cyd Bwyllgor Cenedlaethol. Nid yw'r Cyngor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad i'w weithwyr.

*Mae'r berthynas rhwng tâl ei Brif Swyddogion a'i weithwyr eraill wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i recriwtio a chadw'r gweithwyr addas gorau yn ei swyddi amrywiol, tra'n cynnal y pwyntiau gwahaniaethol a arfarnwyd yn yr arfarniad swyddi.*

*Mae Adolygiad Hutton o Gyflog Teg yn y Sector Gyhoeddus yn argymell cymhareb o ddim mwy na 1:20 rhwng y cyflog uchaf a'r cyflog isaf. Mae'r gymhareb honno yn y Cyngor yn 1:7.8.*

## AMODAU GWAITH LLEOL

### Tâl Cychwynnol

*Mae'r nifer o hicynnau sydd o fewn pob graddfa yn adlewyrchu'r cyfnod posib o ddatblygiad mewn swydd allai fod yn berthnasol i'r unigolion sydd ar y raddfa honno. Bydd aelodau staff yn cael eu penodi i'r pwynt cyflog o fewn y raddfa sydd yn*

DRAFFT

*adlewyrchu'r amser fydd ei angen er mwyn datblygu fel eu bod yn gallu ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd yn llawn.*

*Yn arferol, penodir pob gweithiwr i'r pwynt cyflog isaf o fewn y graddfa cyflog priodol. Os yw gweithiwr eisioes yn derbyn tâl uwchben y pwynt cyflog isaf neu os oes tystiolaeth ddigonol i arddangos bod y gweithiwr eisioes yn llawn gymwys i gyflawni nifer o agweddau o'r swydd, gall rheolwr, mewn ymgynghoriad hefo'r Pennaeth Adnoddau Dynol, benodi ar bwynt cyflog uwch o fewn y raddfa cyflog briodol.*

*Os oes lle o fewn graddfa'r swydd, bydd pob aelod staff yn gymwys i dderbyn hicyn cyflog blynyddol ar y cyntaf o Ebrill yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir ym Mholisi'r Cyngor ar Ymdrin â Thanberfformio ac ar yr amod eu bod wedi'u penodi i'w swydd bresennol am fwy na chwe mis cyn y dyddiad hwnnw.*

**Costau Ail-leoli**

*Mewn sefyllfa ple bo'n angenrheidiol i weithiwr ail-leoli er mwyn ymgymryd â swydd, gall y Cyngor, o dan amgylchiadau arbennig, gyfrannu tuag at ad-daliad costau ail-leoli. Mae'r cynllun yn berthnasol i weithwyr a benodir o ganlyniad i hysbyseb neu'n dilyn ad-drefnu mewnol lle bydd rhaid iddynt symud tŷ.*

*Rhaid i gartref presennol y gweithiwr fod fwy na 20 milltir o'r ganolfan weinyddol cyn y gellir ystyried cais i ad-dalu costau.*

*O dan yr amgylchiadau hyn, telir cost symud dodrefn ac eiddo yn llawn yn ddarostyngedig i dderbyn yr isaf o dri dyfynbris ynghyd a chost llawn storio dodrefn hyd at dri mis. Gellir gwneud cyfraniad hyd at £3,270 ar gyfer costau cyfreithiol, ffioedd arwerthwr tai, costau carpedi a llenni a mân gostau symud eraill yn amodol ar ddangos derbynebau perthnasol.*

**Ychwanegiad y Farchnad**

*Mae lefel cyflog wedi ei seilio ar gynllun arfarnu swyddi'r Cyngor. Golyga hyn fod y system o dalu aelodau staff wedi ei seilio ar gydraddoldeb yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cyflog Cyfartal 1970 ac yn sicrhau cysondeb o ran penderfyniadau sydd yn ymwneud â thâl. O ganlyniad fe allai unrhyw wyriad o'r system hon greu risg sydd angen ei reoleiddio'n gadarn. Mae'n rhaid bod rhesymau pendant a chlir os am gyfiawnhau unrhyw wyriad o'r trefniant hwn.*

*Fodd bynnag, fe allai sefyllfa gyfyd pan fo pwysau'r farchnad yn creu problemau recriwtio a/neu gadw staff yng nghyswllt swydd benodol. Gall y Cyngor mewn rhai achosion eithriadol, ac er mwyn denu a/neu gadw unigolyn i swydd benodol, gynnig taliad ychwanegol i'r raddfa gyflog a fabwysiadwyd gan y Cyngor.*

*Yn y cyswllt hwn dim ond pan fydd tystiolaeth ddogfennol digonol o fethiant i recriwtio a/neu gadw aelod staff y bydd ychwanegiad y farchnad yn cael ei ddefnyddio. Nid yw ychwanegiad y farchnad yn ychwanegiad parhaol i gyflog swydd. Os yw'r amgylchiadau sydd yn berthnasol i'r ychwanegiad yn newid, neu os yw aelod staff yn cael ei drosglwyddo gan y Cyngor i swydd arall nad yw'n denu ychwanegiad y farchnad, yna bydd hawl yr unigolyn hwnnw/honno i'r taliad yn peidio, a bydd yr atodiad yn cael ei atal yn unol â'r rhybudd priodol.*

*Mae'r Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 9 o Hydref, 2014, wedi cymeradwyo caniatau darpariaeth ychwanegiad y farchnad o hyd at £3,000 ar gyfer Prif Swyddogion ple bo*

DRAFT

*hynny wedi'i gyfawnhau gan achos busnes. Nid oes nenfwd wedi'i osod yng nghyswllt lefel ychwanegiad y farchnad ar gyfer swyddi eraill.*

**Cydnabyddiaeth Ariannol (Ymgymryd â Chyfrifoldebau Ychwanegol)**

*Gellir caniatáu taliad ychwanegol pan fo aelod staff yn cytuno i gais i ymgymryd â chyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau sydd y tu hwnt i ddyletswyddau a chyfrifoldebau arferol ei swydd ar sail dros dro. Mae'n rhaid i'r gyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau uwch fod yn sylweddol, yn cael eu harfarnu ar lefel cyflog uwch a thros gyfnod estynedig cyn y gellir cynnig cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol dros-dro.*

**Taliadau Ar-Ddyletswydd, Ar Alwad a Galw Allan**

*Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau yn unol ag anghenion pobl Gwynedd. Golyga hyn y bydd adegau pan fo gofyn i aelodau staff ymgymryd â dyletswyddau oddi allan i'r patrwm gwaith arferol ac ar adegau anghymdeithasol. Mae'r Cyngor yn cwrdd â'r anghenion ar gyfer y gwasanaethau hyn trwy:*

- *sicrhau fod staff cymwys ar gael i gymryd galwadau a phenderfynu ar weithredu priodol*
- *sicrhau fod gweithlu cymwys ar gael i fod ar alwad ac yn barod i gael eu galw allan ar fyr rybudd er mwyn ymateb i waith mewn argyfwng*
- *gwobrwyo'r staff uchod trwy daliadau addas mewn cydnabyddiaeth o'r anghyfleustra a'r ymyrraeth mae gwaith o'r fath yn ei greu.*

*Diffinnir **ar ddyletswydd** fel cyfnod o amser pan fo swyddog ar ddyletswydd oddi allan i'r oriau gwaith arferol ar gyfer cyfnod penodol o amser, a'u bod **ar gael** i ymateb i alwadau gan drigolion, gwasanaethau brys a.y.b.*

*Diffinnir **ar alwad** fel cyfnod penodol o amser mae swyddog **ar gael** i'w alw allan y tu allan i'r oriau gwaith arferol.*

*Mewn rhai achosion bydd bod ar alwad neu ar ddyletswydd yn ffurfio rhan o gyflog sylfaenol swyddogion. Mewn achos o'r fath bydd y cytundeb cyflogaeth yn nodi hynny'n glir. Ni fydd gan y swyddogion hynny'r hawl i daliad ychwanegol pan ar alwad/ar ddyletswydd.*

*Bydd swyddogion eraill yn derbyn tâl ar ffurf taliad ychwanegol a fydd yn adlewyrchu lefel yr anghyfleustra ar gyfer bod ar gael i ymateb i alwad tu hwnt i oriau gwaith arferol. Bydd y swyddogion hynny yn derbyn lleiafswm o ddwy awr ar y cyflog priodol pob tro maent yn cael eu galw allan (gan gynnwys amser teithio).*

*Mae taliadau ar alwad/ar ddyletswydd yn cael eu diweddaru'n flynyddol i adlewyrchu'r cynnydd cyflog blynyddol yn unol â'r hyn a gytunir gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol.*

**Ffioedd Proffesiynol**

*Ad-delir un ffi y flwyddyn î Swyddogion ar gyfer aelodaeth o gorff cydnabyddiedig sy'n berthnasol i'w swyddogaeth broffesiynol a phle bo'r aelodaeth hwnnw yn ofyniad gan y Cyngor.*



DRAFT

**Defnyddwyr Car**

*Dynodir pob gweithiwr fel defnyddiwr car achlysurol a telir ad-daliadau am deithiau busnes ar sail graddfeydd Swyddfa Cyllid y Wlad.*

**Treuliau Cynhaliaeth**

*Telir ad-daliadau cynhaliaeth, ar gyflwyniad derbynneb, os yw aelod staff yn teithio tu allan i'r Sir ar gyfer brecwast, cinio, te a swper, a hynny hyd at yr uchafswm ar gyfer lwfansau cynhaliaeth. Ar gyfer y staff hynny sydd â'u gwaith yn golygu eu bod yn teithio ar draws mwy nag un Sir e.e. Gwynedd a Môn, diffinnir "y tu allan i'r Sir" fel y tu allan i'r ardal waith arferol.*

**Gweithio Oriau Ychwanegol**

*Telir gweithwyr, a gyflogir ar bwynt 28 neu is, ar sail unwaith a hanner o'r cyflog sylfaenol yr awr pan yn gweithio mwy na 37 awr mewn wythnos (trefniadau amgen ar gyfer gweithwyr gyda phatrymau gwaith ple bo'r oriau a weithir ar sail pythefnos/misol neu blynyddol). Caniateir tâl sylfaenol neu amser yn ei le i weithwyr a gyflogir ar bwynt cyflog uwch na 28 pan yn gweithio mwy na 37 awr a phan fo'r Pennaeth Adran wedi cymeradwyo'r gwaith ychwanegol ymlaen llaw.*

**Gweithio Oriau Anghymdeithasol**

*Telir cyflog ar y raddfa sylfaenol am waith, oddi fewn i'r 37 awr, a gyflawnir ar y penwythnos. Telir tâl chwyddedig i weithwyr sy'n gweithio yn ystod yr oriau a ganlyn;*

- *tâl sylfaenol a phumed rhan o'r cyflog am waith a gyflawnir rhwng 8 a 10 y nos*
- *tâl sylfaenol a thraean rhan o'r cyflog am waith a gyflawnir rhwng 10 y nos a 6 y bore*

*Telir cyflog yn unol â'r gytundeb cenedlaethol ar gyfer gwaith a gyflawnir ar wyliau banc a gwyliau statudol ychwanegol.*

**Lwfans Cymorth Cyntaf**

*Telir lwfans blynyddol i weithwyr sydd yn gweithredu fel Cymorthyddion Cyntaf dynodedig.*

**Dyletswyddau Etholiadau Lleol**

Mae ffioedd y Cyngor ar gyfer taliadau i'r Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau am ddyletswyddau etholiadau lleol wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

**Diswyddo ac Ymddeol**

Mae cynlluniau diswyddo ac ymddeol y Cyngor yn cael eu gweithredu'n gyfartal a theg i bob aelod staff, waeth beth fo'u graddfa cyflog, eu hoedran neu eu rhyw ac fe'u gweithredir yn unol â rheoliadau'r cynlluniau pensiwn perthnasol. Nid oes



DRAFT

unrhyw eithriadau i Brif Swyddogion. Mae'r polisïau perthnasol ar gael ar wefan y Cyngor yn y linc ganlynol - www.gwynedd.gov.uk/buddiannaucyflogaeth.

**Cynllun Colled Ariannol**

*Diffinir colled ariannol fel colled o ganlyniad i newid mewn graddfa cyflog ac amodau a thelerau cytundebol. Mae'r Cyngor yn darparu cymorth ariannol i staff sy'n wynebu sefyllfa o golled ariannol (yn sgil ail-strwythuro neu ail-ddyrannu cyfrifoldebau) am gyfnod o dair blynedd oddi ar ddyddiad gweithredol y newid i'w pecyn cyflogaeth. Bydd y cymorth ariannol hwnnw yn dod i ben ar ol tair blynedd oni bo'r aelod staff unigol yn y cyfamser wedi'i benodi i swydd arall ple nad yw o/hi yn wynebu'r golled ariannol.*

**Ail-gyflogi**

Nid yw'r Cyngor yn eithrio cyn-swyddogion, a dderbyniodd daliadau diswyddo, ar sail gormodedd neu bensiwn, rhag cael eu hail gyflogi.

Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn ystyried pob ymgeisydd yn ôl ei haeddiant ei hun a bydd yn penodi gyda'r bwriad o gyflawni'r effeithlonrwydd gorau ar gyfer y gwasanaeth a'r gwerth gorau ar gyfer ei drethdalwyr. Byddai'r fath benodiad, os byddai'n cael ei wneud, yn destun unrhyw leihad a nodir yn y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**Penodi Prif Swyddog Newydd (Cyflog o £100,000 a throsodd)**

Bydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo unrhyw newid i becyn cyflog swydd o'r fath cyn yr eir ati i recriwtio. Hysbysebir yn allanol ar gyfer llenwi swydd o'r fath.

DRAFT

**ATODIAD 1**

# Cyflogau Prif Swyddogion

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | £100,536 - £108,264 |
| Cyfarwyddw~~y~~r Strategol x 2 | £81,665 - £90,739 |
| Pennaeth Addysg | *£76,412 - £84,923 |
| Pennaeth Cyllid | £69,319 - £77,021 |
| Pennaeth Adran Economi a Chymuned, Priffyrdd a Bwrdeistrefol, , Rheoleiddio, Cefnogaeth Corfforaethol a Datblygu'r Sefydliad, Plant a Chefnogi Teuluoedd, Oedolion, Iechyd a Llesiant | £64,502 - £71,668 |
| Pennaeth Ymgynghoriaeth | £54,486 - £60,540 |
| Swyddog Monitro | £54,660 - £57,361 |

*Telir "Ychwanegiad y Farchnad" ar ben y cyflog sylfaenol ar gyfer y swydd hon



DRAFT

**ATODIAD 2**

# TREULIAU'R CYNLLUN TALIADAU ETHOLIADAU FEL A GYMERADWYWYD GAN GYNGOR GWYNEDD

| **Ffioedd ar gyfer cynnal yr etholiad yn gyffredinol a chwblhau'r holl ddyletswyddau ble bo angen i Swyddog Canlyniadau weithredu dan unrhyw orchymyn neu ymddeddfiad sy'n ymwneud ag ethol Cynghorwyr.** | | |
|---|---|---|
| **Ffioedd Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau** | **Wedi eu herio** | **Heb eu Herio** |
| Swyddog Canlyniadau | 117.00 | |
| Am gynnal yr etholiad yn gyffredinol a chwblhau'r holl ddyletswyddau ble bo angen i Swyddog Canlyniadau weithredu dan unrhyw orchymyn neu ymddeddfiad sy'n ymwneud ag ethol Cynghorwyr | | ) |
| Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref | | ) 75.00 |
| Dirprwy Swyddog Canlyniadau | 80.00 | ) |
| Dyletswyddau penodol i gynnwys bod yn bresennol i dderbyn papurau pleidleisio, eu harchwilio a beirniadu a ydynt yn ddilys; ymdrin gydag ymgeiswyr; hysbysu ymgeiswyr am benderfyniadau gydag enwebiadau; cyhoeddi datganiadau am bobl a enwebwyd, a bod yn bresennol i dderbyn unrhyw achos o dynnu yn ôl a rheoli'r cyfrif | | ) |
| Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref. | | |
| Isetholiadau | | |
| Mewn unrhyw isetholiad lle y cyflogir Dirprwy Swyddog Canlyniadau i reoli'r cyfrif:<br>Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref. | 32.00 | |

DRAFT